

Penpal 2

C L W Y D

Y Cylchlythyr ar gyfer aelodau Gweithredol Cronfa Bensiwn

Rhifyn 21b, Gwanwyn 2017

Annwyl Aelod

Croeso i Gyfrol 2 Penpal 2017, sydd wedi ei anfon i chi gyda'ch datganiad buddion blynyddol gweithredol. Bydd y cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad ychwanegol ynglŷn â'ch datganiad a hefyd yn rhoi manylion ynglŷn â ffyrdd eraill o ehangu eich buddion pensiwn os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag unrhyw ran o'r wybodaeth yn y cylchlythyr hwn, mae ein manylion cyswllt isod.

Cofion,
Helen Burnham
Rheolwr Gweinyddu Pensiynau

Datganiad Buddion Blynyddol Gweithredol

Yn amgaaedig gyda'r cylchlythyr hwn mae eich datganiad buddion blynyddol gweithredol sy'n rhoi manylion am werth eich buddion pensiwn gweithredol ar 31 Mawrth 2017. Os oes gennych sawl swydd weithredol byddwch yn derbyn un ar gyfer pob swydd bensiynadwy.

Mae'r datganiadau wedi eu haddasu fymryn eleni i roi gwell dealltwriaeth i chi o'r buddion yr ydych yn eu dal o fewn y Gronfa. Mae ardaloedd wedi eu lliwio wedi eu defnyddio i danlinellu elfennau amrywiol eich pensiwn, yn ogystal â dangosyddion amrywiol ac eglurhad i'ch helpu i ganfod sut mae ffigyrau penodol wedi eu cyfrif a pha gyfnod o ran aelodaeth y maent yn perthyn iddynt.

Wrth ddarllen eich datganiad, os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw fanylion ewch i'r adran briodol yn y "Llyfryn Nodiadau Arweiniol" ar ein gwefan.

Ailbrisiu Cost Byw

Pob blwyddyn, caiff eich pensiwn CARE (Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisiu) ei ailbrisiu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n ddangosydd y Llywodraeth ar gyfer chwyddiant. **O dan Adran 5A o'ch datganiad buddion blynyddol** fe fyddwch yn gweld ailbrisiad eich buddion ar ôl 1 Ebrill 2014. Fe fydd yna ffigwr negyddol yn y maes sy'n dangos addasiad ailbrisiad cost byw i'ch pensiwn CARE, o ganlyniad i'r cwmp mewn chwyddiant ar 1 Ebrill 2016 (-0.1%) ac mae'n weithredol o'r dydd Llun cyntaf ar ôl 5 Ebrill. **Byddwch yn ymwybodol os gwelwch yn dda nad yw'r ailbrisiad negyddol hwn yn effeithio ar unrhyw fuddion yr ydych wedi eu casglu cyn 31/03/2014.**



Hunan Wasanaeth Aelodau

Nodwch os gwelwch yn dda: Dyma eich ail hysbysiad na fyddwn, o Ebrill 2018, yn postio'r Datganiadau Buddion Blynyddol, gan y byddant ar gael drwy'r Hunan Wasanaeth Aelodau, oni bai eich bod yn gwneud cais ysgrifenedig ffurfiol amdanynt.

Cysylltu â Chronfa Bensiwn Clwyd

Rhif ffôn:
dydd Llun – dydd Gwener
9 am – 5 pm:
01352 702785 or 01352 702876

E-bost: pensions@flintshire.gov.uk
Gwefan www.clwydpensionfund.org.uk
Cyfeiriad: **Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA**

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, Braille, print bras, Fideo/DVD Iaith Arwyddion Prydain, tâp sain ac ieithoedd eraill ar gais.

Cynyddu eich pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o aelodau yn edrych ymlaen at ymddeoliad hapus a chyfforddus ac er mwyn cael ychydig yn fwy yn ystod eich blynyddoedd o ymddeoliad, efallai y byddech yn ystyried talu cyfraniadau ychwanegol, sy'n ffordd **effeithiol o ran treth** o ychwanegu at eich incwm pan fyddwch yn ymddeol. Mae yna **ddwy** ffordd y gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol, a hynny yw drwy dalu

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol neu **Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol**

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)



Gostyngiad yn y dreth – Mae Cynllun CGY Llywodraeth Leol Prudential yn drefniant sy'n eich galluogi i wneud arbedion ychwanegol effeithiol o ran treth ar ben eich buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os ydych yn dechrau eich cynllun CGY ar ôl Ebrill 1 2014, gallwch gyfrannu hyd at 100% o'ch cyflog pensynadwy, cyn y dyddiad hwn mae'n gyfyngedig i 50%.

Hyblyg – Gallwch gynyddu, gostwng neu atal ac ailgychwyn eich taliadau pryd bynnag y dymunwch. Caiff eich cyfraniadau eu tynnu o'ch cyflog cyn treth a'u trosglwyddo i Prudential i'w fuddsoddi.

Dewisiadau o ran buddsoddi – Rydych yn dewis ym mha gronfeydd yr hoffech fuddsoddi eich arian o'r cronfeydd sydd ar gael. Mae gan bob cronfa ei lefel ei hun o ran y budd a'r risg posibl, a gallwch symud eich arian yn eich cynllun rhwng cronfeydd ar unrhyw adeg.

Arian Di Dreth 100% - Gellir tynnu arian o'ch cynllun CGY fel taliad cyfan di dreth cyn belled â'ch bod yn ei dynnu ar yr un pryd â'ch prif gynllun buddion ac nad yw'n uwch na 25% o werth cyfunol eich CGY a'r prif gynllun buddion. Mae hyn yn golygu fod y cyfraniadau yr ydych yn eu talu yn rhydd o dreth a gellir eu talu i chi yn rhydd o dreth hefyd. Neu, gallwch brynu blwydd-dal i gynyddu eich pensiwn blynyddol neu drosglwyddo i rywle arall.

Os hoffech ymchwilio i'r posibilrwydd o ddechrau eich CGY eich hun, ewch i www.pru.co.uk/lqpschoices

Mae Cronfa Bensiwn Clwyd ar hyn o bryd yn y broses o adolygu'r amrywiaeth o gronfeydd sydd ar gael i'n deiliaid CGY yn ddiweddarach eleni. Bydd yr holl ddeiliaid CGY gweithredol yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau pan fydd hynny'n digwydd.

Yn ogystal â'r daflen amgaeedig, mae'r wefan uchod yn darparu canllawiau pellach ynglŷn â'r budd o gyfrannu i CGY. Ymdrinnir â sefyllfaoedd posib amrywiol er mwyn hybu eich dealltwriaeth yn ogystal â chyfrifiannell CGY i weld beth fyddai canlyniad eich cyfraniadau pan fyddwch yn ymddeol.


Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)

Mae'n bosibl i brynu cyfanswm o bensiwn blynyddol (hyd at uchafswm o £6,755) gyda gostyngiad yn y dreth tra rydych yn aelod gweithredol drwy dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol mewn taliadau rheolaidd (ar unrhyw adeg hyd at flwyddyn cyn eich oed pensiwn arferol) neu fel taliad cyfan drwy eich cyflog neu'n uniongyrchol i Gronfa Bensiwn Clwyd.

Wedi talu CPY, mae'r pensiwn blynyddol wedi'i gredydu yn cael ei ychwanegu i'r pensiwn blynyddol CARE (Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbriso) yr ydych wedi ei gasglu hyd yma, a byddant yn cael eu hailbriso ar ddiwedd pob blwyddyn yn unol â'r rheoliadau. Nodwch os gwelwch yn dda y gall fod yn ddarostyngedig i ostyngiadau neu ychwanegiad os caiff ei dynnu cyn neu ar ôl eich Oed Pensiwn Arferol.

I weld faint o bensiwn y gallwch ei brynu ewch i wefan aelodau'r CPLL www.lqpsmember.org

a chliciwch y botymau canlynol



ac **Buy Extra Pension**

quote and apply

Prun ai ydych am weld faint y byddai yn ei gostio i brynu swm penodol o bensiwn blynyddol, neu weld faint y byddai taliad rheolaidd o gyfraniadau yn ei brynu os byddech yn cyfrannu am gyfnod penodol, mae'r uchod yn caniatáu i chi addasu manylion i gyd-fynd â'ch amgylchiadau ariannol. Wrth glicio'r botwm 'Get Results' gallwch weld faint y bydd yn ei gostio i chi. Os ydych yn dymuno parhau gyda'r cais, gwneud yn siŵr eich bod yn darllen ac yn deall y telerau a'r amodau, ac yn anfon y cais i Gronfa Bensiwn Clwyd a fydd yn cysylltu â chi i gychwyn y broses o wneud cais.